

CIC

Cynhaliwyd CIC yn Capel Coch echnos a diolch unwaith eto i Andrew, Dafydd a Gwenno am arwain y cyfan. Mae rhai o ieuenctid Llanrug wedi ymuno â ni am y tro, ac mi ddaeth rhai ohonyn nhw draw nos Wener. Mi fydd CIC Llanberis a CIC Llanrug yn cyfarfod efo'i gilydd dros yr wythnosau nesaf beth bynnag.

MOLI

Yn ystod oedfa MOLI nos Sul diwethaf cafwyd cyfle i groesawu Corey a Catrin Hampton a chael peth o'u hanes. Roedd pawb wedi rhyfeddu o glywed Corey yn siarad mor rhugl yn Gymraeg ac yntau wedi dysgu'r iaith mewn cyn lleied o amser wedi iddo ddod i Gymru o'r Unol Daleithiau. Dymunwn yn dda iddynt yn eu bwriad o symud i ardal Llandysul i sefydlu eglwys newydd.

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Dydd Sul, Ionawr 22: Am 3.30 o'r gloch cynhelir Cyfarfod Gweddi yng ngofal aelodau'r ddwy eglwys.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Dydd Sul, Ionawr 22: Cynhelir Oedfa Deulu am 10.30 o'r gloch.

Y mis nesaf - Deiniolen

Ionawr 15

5.00 p.m. - Y Gweinidog

Ionawr 22

3.30 p.m. - Cyfarfod Gweddi

Ionawr 29

5.00 p.m. - Mr John Roberts

REHOBOTH

Dydd Sul, Ionawr 22: Ni fydd oedfa.

BETHLEHEM

Nos Fawrth, Ionawr 17: Cyfarfod 'Y Ffordd' yn festri Carmel am 7.00 o'r gloch.

Dydd Sul, Ionawr 22: Yr Ysgol Sul am 10.00 o'r gloch. Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

CARMEL

Dydd Llun, Ionawr 16: Dosbarth Gwau am 2.00 o'r gloch.

Nos Fawrth, Ionawr 17: Cyfarfod 'Y Ffordd' yn festri Carmel am 7.00 o'r gloch.

Nos Wener, Ionawr 20: Dwylo Prysyr am 6.30 o'r gloch.

Dydd Sul, Ionawr 22: Bydd yr Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch, a gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

CYNLLUN EFE

Dydd Llun, Ionawr 16: Cyfarfod Gweddi yn 'Cartref', Caeathro am 10.30 o'r gloch.



Y mis nesaf - Llanberis

Ionawr 15


10.00 a.m. - Huw Tegid Roberts
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Parchg Huw Pritchard

Ionawr 22

10.30 a.m. - OEDFA DEULU

Ionawr 29

10.00 a.m. - Y Canon Idris Thomas
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Parchg Dewi T Morris



Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las
Rhif 712: Dydd Sul, 15 Ionawr, 2017

Gwneud pob dim yn newydd

Yr wythnos ddiwethaf, rhoddodd *Book of the Week* ar *Radio 4* sylw i'r gyfrol *All Things Made New* a gyhoeddwyd y llynedd gan yr hanesydd Diarmaid MacCulloch. Diwygiad Protestannaidd yr unfed ganrif ar bymtheg yw testun y gyfrol, ac mewn pump o raglenni chwarter awr o hyd roedd yr awdur yn darllen darnau ohoni. Chlywais i mo'r rhaglenni pan ddarllwyd hwy gyntaf. Gwrando 'ar alw' ar y cyfrifiadur wnes i. Wedi clywed y rhaglen gyntaf, mi geisais wrando ar yr ail a'r drydedd wrth ddechrau sgwennu'r golofn hon. Ond dysgais yn fuan iawn na allwn wneud y ddau beth yr un pryd! Roedd angen canolbwyntio, a bu raid i mi wrando fwy nag unwaith ar ambell i ddarn er mwyn ei werthfawrogi'n iawn.

Roedd y rhaglenni yn hynod o ddifyr, a'r gyfrol yn swnio'n ddarllenadwy iawn. Ond rhaid cyfaddef eu bod yn gymhleth. Nid yw hynny'n syndod. Wedi'r cwbl, mae 500 mlynedd ers i Martin Luther hoelio poster ar ddrws eglwys yn Wittensburg yn yr Almaen ar Hydref 31, 1517. Y poster hwnnw a'i 95 Erthygl oedd un o gamau cyntaf y Diwygiad Protestannaidd a ymledodd wedyn i bob rhan o gyfandir Ewrop. Pa ryfedd fod digwyddiadau a syniadau o'r gorffennol yn gymhleth? Aeth Luther a Wittensburg yn enwau dieithr a 'maddeuebau' ac 'iachawdwriaeth' yn syniadau anghyfarwydd ers talwm.

Ac eto, dyna'r union reswm dros y wefr a deimlais wrth glywed y sgysiaau

hyn. Mae'r Diwygiad Protestannaidd a'r athrawiaethau Cristnogol a oedd yn ganolog iddo yn ddieithr i'r rhelyw o bobl heddiw, ond chwa o awel iach oedd clywed y pethau hyn yn cael sylw ar raglenni radio ganol bore. Mae tuedd i anwybyddu digwyddiadau o bwys yn hanes yr Eglwys Gristnogol, a mwy fyth o duedd i anwybyddu rhai o'r athrawiaethau a'r syniadau a fu'n ganolog i'r hanes hwnnw. Cyfrifir athrawiaethau mawr y Ffydd yn hen ffasiwn ac yn amherthnasol. Ond roedd clywed MacCulloch yn trafod yr hanes a'r ddysgeidiaeth yn ein hatgoffa nid yn unig o ddylanwad y Diwygiad yn hanesyddol ond o berthnasedd parhaol y syniadau a oedd yn sylfaen iddo.

Yn y rhaglen gyntaf, er enghraifft, meddai MacCulloch wrth drafod yr argyhoeddiad syfrdanol a wawriodd ar Martin Luther ac a fu'n sail i'w holl fywyd wedi hynny, 'There's nothing a lump of lostness like you and me and Augustine can do for our salvation. We need God to do it all.' Dyna un o gerrig sylfaen y Diwygiad; gwaith Duw yn unig yw ein hiachawdwriaeth. Ac wrth wrando, y wefr i mi oedd clywed y pethau hyn yn cael eu trafod yn gwbl ddifrifol (ac eto yn ddifyr a chydag owns neu ddwy o hiwmor hyd yn oed) fel pethau sy'n aros o bwys yn ein hunfed ganrif ar hugain ryfedd ni.

Boed i ddatliadau 500 Mlwyddiant y Diwygiad Protestannaidd ddangos i ni fawredd y Ffydd a daniodd ac a ddylanwadodd ar gyfandir cyfan.

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Balm o Salm



'Symbylwyd fy nghalon gan neges dda; adroddaf fy nghân am y brenin; y mae fy nhafod fel pin ysgrifennydd buan. Yr wyt yn decach na phawb; tywalltwyd gras ar dy wefusau am i Dduw dy fendithio am byth ... Y mae dy orsedd fel gorsedd Duw, yn dragwyddol, a'th deyrnwialen yn wialen cyfiawnder. Ceraist gyfiawnder a chasau drygioni; am hynny bu i Dduw, dy Dduw di, dy encinio ag olew llawenydd uwchlaw dy gyfoedion' (Salm 45:1-2, 6-7).

Heddiw

Gwasanaethir yn Capel Coch am 10.00 o'r gloch Mr Huw Tegid Roberts. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch, ac yna gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Huw Pritchard.

Gwasanaethir yn Neiniolen am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Bydd yr Ysgol Sul yn Llanllechid am 10.30 o'r gloch a gwasanaethir am 5.00

o'r gloch gan y Parchg Dylan Rhys Parry, Llandudno.

Bydd yr Ysgol Sul yn Nhalybont am 10.00 o'r gloch, a gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Parchg Dafydd Lloyd Hughes, Caernarfon.

Ni fydd oedfa yn Rehoboth heddiw.

Cofion

Anfonwn ein cofion at bawb sydd heb fod yn dda, ac yn arbennig at bawb sy'n methu â dod i'r oedfa ar hyn o bryd.

'Y Ffordd'



Bwriedir cychwyn dilyn cwrs newydd 'Y Ffordd', a baratowyd ar gyfer yr eglwys gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, yng nghapel Carmel yr wythnos hon, am 7.00 o'r gloch, nos Fawrth, Ionawr 17.

Mae'r teitl 'Y Ffordd' yn addas iawn i'r math yma o ddeunydd sy'n gyflwyniad i'r Ffydd Gristnogol o gofio fod Iesu Grist ei hun wedi dweud, 'Myfi yw'r ffordd, a'r gwirionedd a'r bywyd'.

Bydd deunydd yn cael ei baratoi dros y pedair blynedd nesaf ar gyfer eglwysy a fydd yn dilyn y cwrs dan y penawdau canlynol:

1 Ffydd drwy'r Beibl

- 2 Y Ffordd y daethom
- 3 Tystiolaeth Pobl y Ffordd
- 4 Gofal Pobl y Ffordd

Yn y cyfarfod nos Fawrth, mi fyddwn yn cychwyn yr adran 'Ffydd drwy'r Beibl'.

Dyma'r math o gwestiynau sy'n cael eu hawgrymu ar gyfer y cyfarfod cyntaf yma:

1. Pa ddarlun neu ddelwedd sy'n disgrifio'r Beibl orau i chi?
2. Pam fod cymaint o bobl yn diystyru'r Beibl heddiw?
3. Os yw'r Beibl yn 'llyfr caeedig', beth sy'n gyfrifol am hynny a sut mae ei newid?
4. Oes yna rannau o'r Beibl sy'n peri gofid neu benbleth i chi?

Cynllun Efe

Adroddwyd yr wythnos ddiwethaf y bydd Andrew Settatee yn gadael ei swydd gyda Chynllun Efe ddiwedd Chwefror wedi iddo gael ei benodi i swydd newydd gyda'r Presbyteriaid yn Llyn ac Eifionydd.

Mewn cyfarfod yng nghapel Caethro ddydd Llun diwethaf penderfynodd Ymddiriedolwyr Cynllun Efe yn unfrydol i geisio penodi gweithiwr newydd i olynu Andrew. Hyderwn y bydd y gwaith yn parhau dan arweiniad Andrew o hyn hyd ddiwedd Chwefror, ac y medrwn benodi gweithiwr newydd mor fuan â phosibl wedi hynny.

Gweddiwn y bydd Duw yn ein harwain i wneud penderfyniadau doeth ac i benodi person addas ar gyfer y gwaith.

Cyfarfod Chwarter

Cynhelir Cyfarfod Chwarter Annibynwyr Gogledd Arfon yng nghapel Bethlehem, Talybont am 7.00 o'r gloch, nos Fercher, Ionawr 25 dan gadeiryddiaeth y Parchg Gareth Edwards, Cyffordd Llandudno. Daw tymor Gareth fel Cadeirydd i ben yn

y cyfarfod hwn, a bydd yn trosglwyddo'r cyfrifoldeb am gadeirio cyfarfodydd y Cyfundeb am y ddwy flynedd nesaf i mi.

Dwi ddim yn siwr iawn beth i'w feddwl wrth gael y swydd hon o gofio i mi fod yn Gadeirydd hefyd mor ddiweddar â 2008. Ofni ydw i na wnes fawr o argraff ar neb gan nad oedd neb yn cofio fy mod wedi gwneud y gwaith mor ddiweddar â hynny! Ond mae'n debyg mai prinder gweinidogion sy'n golygu fod y gwaith yn dod nôl i mi yn gynt nag y byddwn wedi ei ddisgwyl.

Ta waeth am hynny, bydd croeso cynnes i chi i'r Cyfarfod Chwarter ar Ionawr 25, pan geir anerchiad gan y Parchg Gareth Edwards ar derfyn ei dymor.

Coleg y Bala

Ar ddechrau blwyddyn mae Coleg y Bala wedi cyhoeddi taflen o ddyddiadau'r gwahanol gyrsiau a fydd yno eleni.

Y dyddiad sydd wedi ei nodi ar gyfer Cwrs Plant Llanberis a Llanrug a Bethel yw dydd Gwener, Mai 13 hyd ddydd Sul, Mai 15. Bydd hwn ar gyfer plant 8 i 12 oed.

Er mai 'Llanberis a Llanrug a Bethel' sydd ar y daflen, mi fydd croeso i blant yr Ofalaeth gyfan ymuno â'r criw a fydd yn mynd i'r Bala. Daw rhagor o fanylion yn nes ymlaen.

Nodwch y dyddiad, felly: Mai 13-15.

Cymdeithas Undebol

Wythnos i nos yfory, nos Lun, Ionawr 23, bydd Cymdeithas Undebol Deiniolen yn cyfarfod yn Nhŷ Elidir am 7.00 o'r gloch. Y gŵr gwadd fydd Mr Alwyn Roberts, Bethel, a thestun ei sgwrs fydd 'Cynllunio ac Adeiladu Hafod Eryri'.

Croes cynnes i chi ymuno â ni.